CABINET

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS
DDYDD MERCHER, 24 TACHWEDD 2021 AM 2:00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) – Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol a Thai), N. George (Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), J. Pritchard (Isadeiledd ac Eiddo) ac R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd â:

D. Street (Prif Weithredwr dros dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog A151), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), J. Carpenter (Rheolwr Cyllid - Refeniw), M. Afzal (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) ac S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ac na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Wylio. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr E. Stenner (Perfformiad, yr Economi a Menter), A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a Fflyd) a C. Harrhy (Prif Weithredwr).

2. DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET – 10 TACHWEDD 2021

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn nodi'r adroddiadau sydd wedi'u trefnu hyd at 23 Chwefror 2022. Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio, ac felly mae'n bosib y bydd yn newid.

Nodwyd bod Eitem 6 ar yr Agenda – Trefniadau Torri Glaswellt wedi'i gohirio i gyfarfod y Cabinet a gynhelir ar 8 Rhagfyr 2021 ac na fyddai'n cael ei hystyried yn y cyfarfod hwn.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Trwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

5. STRATEGAETH TRAWSNEWID TÎM CAERFFILI - YN WELL GYDA'N GILYDD – DIWEDDARIAD 6 MIS

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet ar y cynnydd o dan Strategaeth Trawsnewid Tîm Caerffili -Yn Well Gyda'n Gilydd yn unol â threfniadau rheoli'r rhaglen. Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2021 a manylwyd ar eu sylwadau yn Adran 10 adroddiad y Swyddog.

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd i gyflawni'r strategaeth hyd yma ac roedd yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y camau strategol, gan gynnwys y fframwaith llesiant a llunio lleoedd a'r gyfres gyfredol o adolygiadau corfforaethol. Roedd hefyd yn cynnwys y strategaeth fasnachol a buddsoddi a Sgwrs Caerffili sy'n broses barhaus.

Cyfeiriwyd at adran 5.2 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar y grynodeb o'r cynnydd yn erbyn pob un o'r deg adolygiad corfforaethol ac amlinellodd y Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg y strategaethau a'r polisïau sydd wedi'u lansio yn y chwe mis diwethaf. Cafodd y Cabinet hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn rhai o'r prosiectau sylweddol a adroddwyd o fewn y Fframwaith Llunio Lleoedd.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â Datblygu Gerddi'r Siartwyr a dywedwyd wrth y Cabinet fod gwaith cynllunio wedi'i gymeradwyo yn amodol ar lofnodi unrhyw gytundebau cyfreithiol angenrheidiol.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol sylw at y ffordd y mae'r cynnydd a nodwyd yn erbyn y prosiectau yn y Fframwaith Llunio Lleoedd yn cynnwys holl amcanion lles y Cyngor. Roedd y Cabinet yn falch o weld canlyniad yr adolygiad chwe misol a chroesawodd yr awgrym i weld cynnydd y prosiectau gyda ffotograffau cyn ac ar ôl hynny.

Ar ôl ystyried a thrafod yr adroddiad a thrwy bleidleisio electronig a chadarnhad llafar nodwyd yr adroddiad.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a barn Craffu.

6. TREFNIADAU TORRI GLASWELLT

Fel y nodwyd, gohiriwyd yr adroddiad hwn i gyfarfod y Cabinet a gynhelir ar 8 Rhagfyr 2021.

7. CYNNIG CYFLOGADWYEDD RHANBARTHOL

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr egwyddor o ddull gweithredu a ddarperir yn lleol, ac a gydgysylltir yn rhanbarthol, o ran cyflogadwyedd wedi i aelodaeth i'r UE ddod i ben, a oedd hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Fframwaith ar gyfer Cyflogaeth yn y Dyfodol (y Fframwaith) ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Swyddog.

Nododd y Cabinet y cydymffurfiwyd â'r adroddiad mewn partneriaeth â chydweithwyr a oedd yn cynrychioli cyflogadwyedd ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Roedd Awdurdodau Lleol ar draws y rhanbarth wedi llwyddo i sicrhau cyflogadwyedd am dros ddau ddegawd gan gefnogi degau o filoedd o drigolion i mewn i waith, cyflogaeth â chyflog gwell neu i ddysgu pellach; helpu ein trigolion NEET ifanc; ac wedi bod yn gonglfaen allweddol ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal.

Mae Grŵp Clwstwr Awdurdodau Lleol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn cydweithio i lunio fframwaith rhanbarthol newydd i lywio sut mae gweithgareddau cyflogadwyedd yn cael eu darparu yn y rhanbarth yn y dyfodol. Amlinellwyd egwyddorion allweddol y fframwaith a fyddai'n sail i geisiadau rhanbarthol am gyllid ar ôl yr UE ar gyfer cyflogadwyedd gan gynnwys Cronfa Ffyniant a Rennir y DU pan gaiff ei lansio.

Amlinellodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio yr egwyddorion a rennir a nodwyd yn yr adroddiad, a oedd yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o 20 mlynedd o brosiectau cyflogadwyedd.

Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg a'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio eglurhad ynghylch sut mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â rhaglenni cyflogadwyedd presennol eraill a gynhelir gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Dywedwyd wrth y Cabinet mai dyma'r ysgogiad i sicrhau dull partneriaeth effeithiol iawn yn y rhanbarth, gan weithio'n agos gyda phartneriaid i osgoi unrhyw ddyblygu darpariaeth cyflogadwyedd.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Drwy bleidleisio'n electronig a chadarnhad llafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

i. Bod yr egwyddor o ddull gweithredu a ddarperir yn lleol, wedi'i gydgysylltu'n rhanbarthol ar gyfer cyflogadwyedd ar ôl yr UE, yn cael ei gymeradwyo.

ii. Bod y Fframwaith ar gyfer Cyflogadwyedd yn y Dyfodol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd fel y dangosir yn Atodiad A yn cael ei gymeradwyo.

8. RHYDDHAD ARDRETHI BUSNES – CYLLID LLYWODRAETH CYMRU

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynllun rhyddhad ardrethi dewisol lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 gan ddefnyddio cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru at y diben hwn.

Nododd y Cabinet y cynllun rhyddhad ardrethi dewisol lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 gan ddefnyddio cyllid o £452k a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r Setliad Ariannol Llywodraeth Leol. Mae talwyr ardrethi busnes yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch yn cael rhyddhad ardrethi o 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 o dan gynllun ar wahân gan Lywodraeth Cymru ac felly nid oes ganddynt ardrethi busnes i'w talu am y cyfnod hwn. Cynigir felly bod y cynllun hwn yn targedu'r trethdalwyr hynny sy'n dal i orfod talu ardrethi busnes

am eleni. Cynigiwyd felly y bydd meini prawf penodol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn eu cynlluniau rhyddhad ardrethi yn berthnasol i'r cynllun hwn er mwyn sicrhau bod y rhyddhad ardrethi yn cael ei dargedu mor effeithiol â phosibl. Cyfeiriwyd y Cabinet at y meini prawf ym Mhwynt 5 adroddiad y Swyddog.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Drwy bleidleisio'n electronig a chadarnhad llafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, y dylid cymeradwyo a mabwysiadu'r cynnig ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi dewisol lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 fel y nodir ym mharagraffau 5.1 i 5.9.

9. PRAWF BUDD Y CYHOEDD

Ystyriodd yr Aelodau brawf budd y cyhoedd, a daethpwyd i'r casgliad, ar y cyfan, bod budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu gwybodaeth a:-

PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y byddai'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod, oherwydd y tebygolrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y nodwyd ym mharagraffau 14 ac 16 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

10. EITEM EITHRIEDIG – LAWNTIAU RHYMNI – MATERION CWLFERT A CHOSTAU DILYNOL YN GOR-REDEG

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo argymhellion yn adroddiad y Swyddog a thrwy bleidleisio electronig a chadarnhad llafar, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, cymeradwyo'r argymhellion ym mharagraff 3.1 (i), (ii), (iii) a (iv).

Daeth y cyfarfod i ben am 2:40pm

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 8 Rhagfyr 2021.

_____

CADEIRYDD